

Ein Treftadaeth  
Our Heritage

## Pensaerniaeth heb Benseiri

Mae beddrodau o'r cyfnod Neolithig, oddeutu 6000 o flynyddoedd yn ôl, yn rhai o'r strwythurau cynharaf a mwyaf rhyfeddol yng ngogledd Cymru.

Fe'u hadeiladwyd ar ddechrau'r cyfnod Neolithig pan oedd pobl yn dechrau ffermio planhigion ac anifeiliaid. Llefydd i gladdu gweddillion dynol oedd beddrodau. Roeddent hefyd yn symbol o ddechrau newydd oherwydd credai'r bobl Neolithig y byddai anrhydeddu hynafiaid mewn beddrodau yn arwain at lwc dda ac anifeiliaid, cnydau a theluoedd iach.

Ceir math arbennig o feddod yn yr ardal hon o'r enw cromlech borth. Fe welch bâr o'r beddrodau hyn ymhellach ymlaen ar hyd y llwybr hwn. Maent yn siambrau enfawr tebyg i focsys wedi'u gwneud o slabiau carreg mawr gyda phenllech anferth ar eu pennau a phorth mynediad ar eu tu blaen. Mae henebion tebyg o gwmpas arfordiroedd yr Iwerydd yn Ewrop, gan gynnwys Iwerddon, gorllewin Cymru, de orllewin Lloegr, Portiwgal, gorllewin Ffrainc a Sbaen sy'n awgrymu cysylltiadau agos rhwng yr ardaloedd hyn ar draws y môr.

Rhoddodd pobl y gorau i ddefnyddio'r beddrodau tua chan mlynedd ar ôl iddynt gael eu cwblhau ond mae crochenwaith a gwrthrychau o'r Oes Efydd wedi'u darganfod yn rhai ohonynt. Dengys y gwrthrychau hyn fod pobl yn dal i ymddiddori yn y beddrodau dros fil o flynyddoedd yn ddiweddarach.


## Architecture without architects

The tombs of the early Neolithic period, around 6000 years ago, are some of the earliest and most mysterious structures in north Wales.

They were built at the start of the Neolithic period, when people began to farm plants and animals. Tombs were places to bury human remains. They also symbolised fresh starts, and Neolithic people probably believed that honouring ancestors in tombs would bring good luck and healthy animals, crops and families.

A special type of tomb, called a portal dolmen, is found in this area. You will see a pair of these tombs a little further along this path. They are massive box-like chambers made of large stone slabs with a huge capstone on top and an entrance at the front, called a portal. There are similar monuments around Atlantic Europe, including Ireland, west Wales, south west England, Portugal, western France and Spain, suggesting close contacts between these areas by sea.

People stopped using the tombs around one hundred years after they were completed, however pottery and other objects from the Bronze Age have been found at some of them. These objects show that people were still interested in the tombs over a thousand years later.



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawffraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012  
Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2012



Bryn Celli Ddu




Carneddau Hengwm

**Math o feddrodau Neolithig**  
**Types of Neolithic tomb**

- ★ Carnedd Hafren Cotswold Cotswold Severn Cairn
- Cromlech Borth Portal Dolmen
- Bedd Cyntedd Passage Grave

Rydych chi yma  
You are here



Capel Garmon



Cors y Gedol



### DILYNWCH Y STORI

- Darganfyddwch fwy am feddrodau eraill o'r cyfnod drwy ymweld â:-
- **Cors y Gedol** - Bedd cromlech borth wedi ei lleoli ger Talybont.
  - **Carneddau Hengwm** - Beddrodau anferth wedi eu lleoli yn y mynyddoedd uwchben Llanaber.
  - **Bryn Celli Ddu** - Darganfyddwch ddylanwad hynafol yr Iwerddon yn y bedd cyntedd yn Ynys Môn.
  - **Capel Garmon** - Bedd cymhleth o'r math sy'n gyffredin yn ardal Cotswold Hafren.

### FOLLOW THE STORY

- Discover more about other tombs of the period by visiting:-
- **Cors y Gedol** - A portal dolmen tomb located near Talybont.
  - **Carneddau Hengwm** - Hike to the massive tombs in the mountains above Llanaber.
  - **Bryn Celli Ddu** - Discover an ancient Irish influence at this passage grave, on Anglesey.
  - **Capel Garmon** - Visit a complex 'Cotswold Severn' type tomb.